CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 18ed CHWEFROR 2020

YN CAPEL GAD BODFFORDD

PRESENNOL:
Cyng R R Roberts (Cadeirydd) E Williams, D T Roberts, E W Roberts, E D Owen ar Clerc D Owen.
Mr Dylan Owen a Mrs Carol Evans (Grwp Cynefin)

YMDDIHEURIADAU: Cyng H G Owen (Salwch) W R Parry, R M Roberts, J E Lewis, J Evans.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 21ain IONAWR 2020 YN GYWIR. Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng E W Roberts.

Cafwyd Cyfarfod a Mr Dylan Owen Grwp Cynefin. Anghenion Tai fforddiadwy. hefyd r'oedd Mrs Carol Evans yn bresennol gyda ef.
Cafwyd adroddiad o beth oedd am wneud i'r plwyfi yn ymwneud a Tai Fforddiadwy. Mae rhaid cofio fod Llynfaes, Glanrafon a Trefor (Wardiau Bodwrog a Llandrygarn) i'w ystyried.
Mae llythyrau yn cael ei hanfon allan i gael cyfarfod yn fuan i weld beth yw'r anghenion. Mawrth / Ebrill 2020 rhwng 4 a 6.30 yn y Ganolfan Bodffordd. Y Cyngor yn barod i rhoi caniatad Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng E W Roberts. (Unfrydol)

MATERION YN CODI O'R COFNODION.
Lon Bodwrog. Dim llawer o newid ar hyn o bryd, dipyn o'r tyllau wedi ei llenwi.

Grid Lon Foel, Bodwrog wedi ei gwblhau.

Cyng H G Owen yn ddiolchgar am air o ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor ar ardal ar hyd y blynyddoedd, ac yn dymuno gwellhad buan iddo. Ai weld yn ol yn y Cyngor yn fuan.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.
1. Dim.

PENDERFYNIADAU:
2. FPL/2019/307. 5A Stad Ddiwydiannol Mona, Bodffordd. (newid defnydd) Caniatad.

3. FPL/2019/344. Mathafarn, Bodffordd. Caniatad.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)
4. Swyddog Polisi.
   Memorandwm o ddealldwriaeth - Ffioedd Claddu Plant.
   Cydnabod fod parhad gyda'r gytundeb i beidio codi ffi ar gyfer claddu neu ymlosgi plentyn dan 18.
   Gronfa ar gael i bwrpasau ychwanegol. Adeiladu Gerddi Coffa i blant sydd wedi ei claddu neu ymlosgi neu gwaith cynnal a chadw fel torri gwair yn y fynwent yr ydym yn gyfrifol amdanynt.
   Derbyn.

5. Swyddog Polisi.
   Fw: Blaen Rhaglen Gwaith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad mis Ionawr 2020.
   Paratoir y blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith dros gyfnodau o wyth mis ac mae'n cael ei

diweddaru'n fisol. Derbyn

6. Cyfarwddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.
Ymgynghoriad Statudol - Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir, Llangefni.
Cyfnod Ymgynghori yn cychwyn 6ed Chwefror tan 20ed Mawrth.
Cafwyd fraslyn o'r digwyddiadau gan Cyng E Williams ar ol cyfarfod. Y Clerc i gael copi. Derbyn.

7. Swyddog Prosiect AHNE.
Prosiect Baw Cwn (Dosbarthwr)
A fydd yn bosib cael tuag at y Goedwig Ion Llangwyllog, Bodffordd i'r A5 a Llynfaes o'r Garej i'r Pentref. (Unfrydol)

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Rheolwr Busnes. Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.
Datgainiad i'r Wasg.
Corff Gwarchod Iechyd yn dweud y gall bywydau pobl newid am byth os oes yn rhaid iddynt aros yn yr Ysbyty pan eu bod yn ddigon da i adael. Gwybodaeth. Derbyn.

9. Swyddfa Archwilio Cymru.
Cyfrifon wedi cael barn amodol mewn traean o'r Cynghorau Tref a Chymuned.
Mae amser i'r Cynghorau i gyflwyno ei cyfrifon wedi ei rhoi allan yn y gyfraith.
Allan o 486 o Gynghorau. Dim ond 66 y cant oedd wedi cwrdd a therfyn amser 2019 (30ain *Tachwedd) Tra ymhellach 51 awdits oedd wedi ei cwblhau, 38 o Gynghorau Cymuned yn dal heb* heb ei cyflwyno. Ar ben hynny mae nifer yr archwiliadau cymwys yn dal i fod yn uchel sef 218 o Gynghorau. Yn ol adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
Mae Cyngor Bodffordd wedi cwblhau mewn amser bob blwyddyn.

10. Swyddfa Archwilio Cymru.
Ymgynghoriad ar trefniadau archwilio yn y dyfodol ar gyfer Cynghorau Cymunedol yng Nghymru.
Gwahoddiad i rannu barn, ymatebion erbyn 19.3.20.
A oes pwrpas anfon gwnaethpwyd hyn gyda BDO amser yn ol. Ond ni chafwyd gwrandawiad doedd dim newid, os rhywbeth aeth pethau yn waeth.

11. Llywodraeth Cymru.
Gwybodaeth Rhandaliaeth Isafbris am Alcohol 2ail Mawrth 2020. Derbyn.

12. Archwiliad Mewnol 2019 / 20.
Mr A Foulkes yn cynnig ei wasanaeth eto eleni am £100.00.
Y Cyngor yn derbyn Cynnig E Williams, eilio Cyng E W Roberts. (Unfrydol)

13. Chwarae Dros Gymru. Cylchgrawn Gaeaf 2019. Derbyn. Ei basio ymlaen i Miss Lowri Owen.

14. Aelodaeth Un Llais Cymru 2020/21. Adnewyddau Manylion Aelodaeth. £158.00. Ymelodi Cynnig Cyng E D Owen eilio Cyng E Williams.

15. Pennaeth Datblygu Polisi Economic Gylchol.
Mwy na Ail Gylchu - Digwyddiadau Gogledd Gorllewin Cymru.
Cael barn ar strategaeth i wneud Cymru sy'n garbon isel, yn ddiwastraff,sy'n defnyddio cyfran deg o adnoddau. Chwefror 26ain 18:00-19:30. Sioe Mon, Ynys Mon.

RHODDION

16. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Gadael hyd Mawrth 2020.

PLWYFOL.

17. Gofyn i Mr Paul Owen am amcangyfrif i drwsio y ffens yn y Cae Chwarae (Cyng E W Roberts) 07477780093. Ni chafwyd ymateb gan Mr J D Rowlands.

18. Dau gar yn parcio ar y palmant y tro ger Siop Llifon, yn creu rhywstyr . (Cyng W R Parry)